CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL 19 MAI 2011

Presennol

Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng H Edwards

Cynghorwyr

I C Thomas , H W Roberts, W T Owen, G Parry, A Kirk, G Thomas, W L Davies,
A Roberts, G Thomas

1. Ymddiheuriadau

M Powell Jones, R Bonner Pritchard, M Thomas, A W Bohana

2. Gweddi (Caplan y Maer) Y Parch Gwynfor Williams

3. Anerchiad y Maer, Y Cynghorydd Huw Edwards

4. **ETHOL Y MAER NEWYDD**
   (a) Cynnig gan y Cynghorydd William Lloyd Davies fod y Cynghorydd Ioan Ceredig Thomas i'w ethol yn Faer Tref Frenhinol Caernarfon am y flwyddyn 2011/2012
   (b) Y Cynghorydd Anita Kirk i eilio'r cynnig
   (c) Cymryd pleidlais ar y cynnig

Penderfynwyd
Ethol Cynghorydd I C Thomas yn Faer am y flwyddyn 2011/2012

5. (a) Gwahodd y Cynghorydd Ioan Ceredig Thomas i wneud y Datganiad o Dderbyn y Swydd fel Maer Tref Frenhinol Caernarfon, ac i arwyddo'r Datganiad – Cofiadur Anrhydeddus
   . Ei Deilyngdod y Maer i ddatgan drachefn fel a ganlyn:
   (b) Derbyn y swydd o Ddirprwy Gwnstabl Castell Caernarfon, ac i arwyddo'r Datganiad – Cofiadur Anrhydeddus
   (c) Penodi Caplan y Maer, Y Parchedig R Donaldson

6. **ETHOL DIRPRWY FAER**

Bydd Cadeirydd y cyfarfod yn gwahodd
   (a) Cynnig gan y Cynghorydd Alun Roberts fod y Cynghorydd William Tudor Owen i'w ethol yn Ddirprwy Faer Tref Frenhinol Caernarfon am y flwyddyn 2011/2012
   (b) Y Cynghorydd Glyn Thomas i eilio'r cynnig
   (c) Y Cynghorwyr i gymryd pleidlais ar y cynnig(ion)

Penderfynwyd
Ethol Cynghorydd W T Owen yn Ddirprwy Faer am 2011 / 2012

7. Anerchiad gan ei Deilyngdod y Maer yn cynnwys cyflwyniadau

8. Enwebiadau ar bwyllgorau lleol a cyrff allanol

Penderfynwyd
Derbyn y rhestr

9. Rhaglen presenoldeb a costau cynghorwyr am y flwyddyn 2010 - 2011

Penderfynwyd
Derbyn y rhestr

10. Offrymu gweddi gan Gaplan y Maer

Gorffenodd y cyfarfod am 7.20

Arwyddwyd..... Dyddiad .....